

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 17eg Mawrth, 2020 at 10.00 am

## Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir T.Thomas (Cadeirydd)  
Cynghorydd Sir L.Brown (Is-Gadeirydd )

Cynghorwyr Sir: M. Powell and J.Watkins

## Swyddogion yn Bresennol

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc  
Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad

Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Sir M.Groucutt, L.Jones, D. Jones, M.Lane, P. Strong NEU, E. Thomas and M Harris

### 1. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd Powell fuddiant fel Llywodraethwr yn Ysgol Brenin Harri VIII.

### 2. Fforwm Aqored Cyhoeddus.

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

### 3. Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Addysg - Craffu ar berfformiad y gwasanaeth dros y flwyddyn flaenorol ac ystyried y cyfeiriad strategol ar gyfer 2020-2021 (i ddilyn).

Cyflwynodd y Prif Swyddog ei adroddiad. Diben yr adroddiad yw rhoi gwybod i'r cyngor am gynnydd y system addysg yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn 19/20 cyrhaeddwyd cerrig milltir sylweddol. Mae llawer o ysgolion ar broses wella barhaus a sefydlog. Mae canlyniadau Estyn yn gwella – 'Da' yw'r canlyniad mwyaf cyffredin, ond nid oes digon o ganlyniadau 'Rhagorol'. Cafwyd cyllid grant sylweddol drwy Lywodraeth Cymru. Mae presenoldeb yn gryf iawn, ond mae gwaharddiadau'n destun pryder. Mae cynnydd yn y dyddiau a gollir fesul disgybl ar lefel gynradd. Ar lefel Uwchradd, mae cynnydd sylweddol mewn cyfnodau o waharddiadau cyfnod penodol a chyfanswm diwrnodau a gollwyd. Bydd Richard Austin, Prif Swyddog Cynhwysiant, yn dod i mewn i roi rhagor o fanylion ac esboniadau o'r hyn sy'n eu gyrru. Nodwch nad yw ysgolion unigol yn cael eu henwi yn y data/graffiau.

#### **Herio:**

Ers i'r gwaith gael ei wneud gydag ysgolion cynradd y Clwstwr, a yw disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn well eu byd gyda'r newid o'r cynradd i'r uwchradd – a yw'r bwlch wedi lleihau?

*Ydy, mae'r Cynghorydd yn cyfeirio at y gwaith rhwng y Brenin Harri VIII a'i glwstwr o ysgolion. Rydym yn gweld ymdrech ar y cyd ar draws y continwwm dysgu hwnnw wrth sefydlu'r mathau cywir o sgiliau yn gynnar iawn yn yr ysgolion cynradd, sydd wedyn yn caniatáu pontio llawer mwy esmwyth, a chyfradd cynnydd barhaus drwy'r ysgol uwchradd. Rydym am i blant fod yn gwneud yn dda iawn hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a phontio'n dda – mae'n bwysig peidio â thanbriso pa mor enfawr y gall y cyfnod pontio fod o'r cynradd i'r uwchradd, yn enwedig yn emosiynol. Ceir enghraifft dda o ran mathemateg yn y Brenin Harri a'i chlwtwr: roedd plant yn un o'n hysgolion cynradd a oedd yn cyflawni lefel 6 mewn mathemateg ar ddiwedd y cynradd, ond nid oedd yr athro yn teimlo'n hyderus wrth ddatgan eu bod yn perfformio ar y lefel honno mewn modd cyson – ond roedd cael yr arbenigedd mathemateg o'r ysgol uwchradd yn caniatáu iddynt wneud hynny. Unwaith y bydd hynny wedyn yn cael ei fodelu i lefel nesaf eu haddysg, gallwn ddechrau codi disgwyliadau h.y. os yw plentyn yn gweithio ar Lefel 6 ar ddiwedd y cynradd, gallwch ddisgwyl y byddant yn A\*/A pan fyddant yn dod i gymwysterau TGAU.*

A yw ysgolion sy'n gwneud yn dda yn cael eu cymryd fel modelau ar gyfer sut i gyrraedd safonau uwch na'r disgwyl mewn manau eraill?

*Mae llawer iawn o waith ar hyn ar draws y rhanbarth. Mae'r GCA wedi sefydlu 'Ysgolion Rhwydwaith Arweiniol': maent yn cynghori ac yn cefnogi ysgolion eraill, ceir ymweliadau i weld sut maent yn gweithio (gan gynnwys y rhai y tu allan i'r sir). Mae'r dull newydd o ymdrin â'r cwricwlwm yn seiliedig ar hynny, gyda llwyddiant sylweddol. Mae llawer o'n hysgolion yn dod yn ysgolion rhwydwaith blaenllaw, ac maent bellach yn estyn allan i helpu eraill.*

A oes mwy o gyswllt ag ysgolion Gwent, neu a yw'n gyffredinol ar gyfer De Ddwyrain Cymru? Ble mae'r ffocws?

*Mae'r ffocws yn fawr iawn ar y gwaith yn Ne Ddwyrain Cymru. O ran addysg, 'De Ddwyrain Cymru' yw 5 awdurdod Gwent. Hwy sy'n berchen ar y GCA, sef ein gwasanaeth gwelliant ysgol, felly dyna'r cyfrwng ar gyfer adnabod a threfnu ar gyfer llawer o'r asiantaethau cymorth hynny sy'n cael eu broceru rhwng ysgolion. Mae adegau pan fyddwn yn edrych y tu allan i'r rhanbarth; er enghraifft, Pennaeth Gweithredol Cil-y-coed hefyd yw Pennaeth Gweithredol Esgob Llandaf yng Nghaerdydd. Mae'r Ymgynghorydd Her yn Ysgol Cas-gwent hefyd yn Bennaeth Ysgol Uwchradd Caerdydd, sy'n ysgol sy'n perfformio'n dda iawn. Rydym yn tynnu mewn llw o dalentau i gefnogi ein holl ysgolion. Nid yw ysgolion uwchradd yn gryfder i ni o ran y GCA ar hyn o bryd, ac mae yna ysgolion sy'n cael eu hunain mewn sefyllfaoedd heriol – felly mae'n rhaid i ni weithiau edrych y tu allan i'r rhanbarth i ddod o hyd i'r cymorth hwnnw. Ond ar gyfer ysgolion cynradd, mae bron wedi'i anelu'n llwyr o fewn ôl troed y GCA.*

A oes llawer o gyswllt rhwng y GCA a'r consortiwm canolbarth sy'n cwmpasu ardal Caerdydd?

*Oes, mae 4 rheolwr gyfarwyddwr ardal y consortia rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd. Ers y Nadolig, rhoddais i a Rheolwr Gyfarwyddwr y GCA dystiolaeth yn y Senedd, ochr yn ochr â Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Arweiniol Consortiwm Canolbarth y De. Fel Cyfarwyddwr Addysg rydym yn cyfarfod fel 22, ac fel 5 yn Ne Ddwyrain Cymru hefyd.*

Mae'r adroddiad yn sôn am wella cyfraddau'r cynnydd ar gyfer ADY, yn arbennig, yn y cyfnod nesaf. A allwch amlinellu sut yr ydych yn bwriadu gwneud hynny?

*Un o'r pethau diddorol wrth i ni baratoi a chyflwyno drwy ein harolygiad Estyn (a gyhoeddir ar 21<sup>Sain</sup> Ebrill), oedd bod ein dysgwyr sydd yn ein Canolfannau Adnoddau Anghenion Arbennig yn gwneud cynnydd da. Rydym am fanteisio i'r eithaf ar y gwerthoedd y gall ein Canolfannau*

*Adnoddau Anghenion Arbennig, fel system o fewn Sir Fynwy, eu dwyn ar y system ehangach hefyd. Yr ydym yn parhau i drafod dulliau rhanbarthol o ymdrin â'r anghenion haen uchel iawn sy'n bodoli o fewn ein poblogaeth, a byddwn yn parhau i wneud hynny ar y cyd, i'n holl blant. Mae'r darn ADY, wrth i ni drosglwyddo i'r ddeddfwriaeth newydd, yn ymwneud â deall effaith hynny a sicrhau bod ein hysgolion yn barod ar gyfer hynny. Byddai hefyd yn gyfle da i'r pwyllgor hwn gael cyflwyniad gan yr Arweinydd Rhanbarthol ar barodrwydd ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd, oherwydd bydd newid sylweddol i rieni: rydym wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y rhieni sy'n gofyn am ddatganiadau. Mae holl dirwedd ADY yn newid yn sylweddol iawn. Rydym am sicrhau bod ein holl ystod o ddysgwyr ADY yn gwneud y cynnydd hwnnw. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn diwallu'r angen niwroddatblygiadol yr ydym wedi'i nodi.*

Beth yw'r diweddaraf am Coronafeirws?

*Mae telegynhadledd yfory ar gyfer pob un o'r 22 Cyfarwyddwr am y Coronafeirws. Yr ystyriaeth gyntaf oedd plant yn dychwelyd o deithio tramor, yn dilyn cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyfarfuom â'r holl Benaethiaid ddydd Mawrth diwethaf i drafod parhad busnes a chynlluniau wrth gefn a rennir ymhlith pob ysgol. Mae cynnydd wedi bod ers ddoe, felly rydym yn parhau i gefnogi ysgolion, ac yn trafod cymarebau athrawon i blant. Bydd menywod beichiog sy'n hunan-ynysu yn her i rai ysgolion. Bu cynnydd yn absenoldebau'r plant a'r staff. Llywodraeth Cymru fydd yn arwain y penderfyniad i gau ysgolion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Prydau Ysgol am ddim yn cael ei thrafod gyda chymheiriaid yng Ngwent. Bydd y Cyd-gyngor Cymwysterau yn gwneud penderfyniad ynghylch arholiadau. Mae Google Classroom a Hwb yn cael eu cefnogi ar gyfer dysgu gartref. Mae'r prif bryderon i ni yn ymwneud â'r cymarebau, a phan fydd yn ddiogel cael plant yn yr ysgol, dysgwyr sy'n agored i niwed, arholiadau ac ysgolion arbennig.*

Sut mae dysgu ar gyfer plant cynradd yn cael ei sicrhau? Mae'n ymddangos bod dysgu yn y cartref yn gwneud mwy o synnwyr i blant uwchradd.

*Mae Hwb yn adnodd da iawn i blant cynradd, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n holl ysgolion i sicrhau bod y gwaith hwnnw'n hygyrch i bawb. Yn amlwg, mae pryder bod angen i ddysgwyr/prydau ysgol am ddim sy'n agored i niwed gael mynediad i'r pecyn angenrheidiol ar gyfer y dysgu hwnnw. Dyna un o'r pethau a fydd yn cael ei drafod ymhellach heddiw, ac wrth i'r sefyllfa fynd yn ei blaen.*

Pa gymorth sy'n cael ei roi i mewn ar gyfer tâl a gollwyd i athrawon cyflenwi?

*Nid oes gan y Prif Swyddog y wybodaeth honno.*

#### **Casgliad y Cadeirydd:**

Mae angen i Aelodau graffu ymhellach ar yr adroddiad hwn a meddwl am unrhyw bwyntiau eraill a fydd yn ychwanegu gwerth cyn iddo fynd i'r cyngor. Mae angen i ni ganmol ysgolion am bresenoldeb, a'r rhai sy'n perfformio'n dda. Mae'n bryder nad yw ysgolion, sydd â niferoedd isel iawn o brydau ysgol am ddim, yn cyrraedd y lefel honno. Maes arall sy'n peri pryder yw cyllid, sy'n bryder i bobl yn ein wardiau, yn ogystal â mater gwaharddiadau. Mae angen i waharddiadau fod yn agos at frig yr agenda. Byddwn yn croesawu Richard Austin yn dod i mewn.

#### **4. Craffu ar yr adroddiad perfformiad ar Ganlyniadau Datblygu Ysgolion (i ddilyn).**

Cyflwynodd y Swyddog yr adroddiad ar ansawdd prosesau gwella ysgolion. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld tuedd gynyddol a gwell yn ein perfformiad mewn nifer o feysydd, megis categoraiddio cenedlaethol (mwy o ysgolion yn cael eu hystyried yn 'Wyrdd', dim fel 'Coch') ac yng nghanlyniad arolygiadau Estyn, gyda mwy o ysgolion yn cyflawni 'Da', ac ambell un yn 'Rhagorol'. Ond rydym yn disgwyl gweld mwy. Er mwyn sicrhau hyn, yr ydym yn edrych ar ystod ehangach o fesurau a gwaith y mae'r ysgolion yn ei wneud, er mwyn cefnogi'r symudiad hwnnw tuag at welliant pellach. Dyna sail yr adroddiad.

### **Herio:**

Pam nad oes cymhariaeth â De Ddwyrain Cymru ar yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn 19/20?

*Nid yw'r data'n rhanbarthol ar gyfer 19/20 ar gael, ond pan fydd ar gael byddwn yn diweddarau'r adroddiad. Ond roeddem am rannu cynnydd ein hysgolion ein hunain yn y cyfnod hwn cyn gynted ag y gallem.*

Sut y gellir sicrhau bod hunanarfarnu o'r un safon?

*Ansawdd prosesau cynllunio a hunanarfarnu datblygu'r ysgol: nid oes gofyniad yn awr i ysgol ysgrifennu adroddiad hunanarfarnu, ond ansawdd y broses y mae'n rhaid i'r ysgolion ei rhoi i'r ysgolion caiff barn gywir ei gwerthuso drwy'r ymweliadau Ymgynghorwyr Her. Felly, dros y flwyddyn, bydd Ymgynghorwyr Her yn gweithio gyda'r ysgol i gymedroli'r gwaith a wnânt. Er enghraifft, os oes taith gerdded ddysgu, mae'n ddigon posibl y bydd yr Ymgynghorydd Her yn rhan o hynny. Mae'n ddigon posibl y byddant yn edrych ar gymedroli barn Penaethiaid neu Uwch Arweinwyr ar arsylwadau athrawon, ond byddant yn cymharu'r rheini â chraffu ar lyfrau, ac yn gwrandao ar ddysgwyr. Y dyfarniad yn gyffredinol, felly, yw un yr Ymgynghorydd Her yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth gyfoethog iawn a ddarperir gan yr ysgolion.*

Gan ystyried hynny, pe bai ysgol yn cael ei hunanarfarnu fel 'Da' ond bod y GCA o'r farn ei bod yn 'Ddigonol', pwy fyddai safonwr allanol y lefelau safonol?

*Defnyddir y Broses Gategoreiddio Genedlaethol fel crynodeb – pwynt mewn amser – o ble mae'r ysgol. Mae'r wybodaeth a gesglir gan yr Ymgynghorydd Her yn bwydo i mewn i'r adroddiad hwnnw, a bydd y wybodaeth o'r adroddiad Gategoreiddio Cenedlaethol yn adlewyrchu ansawdd y prosesau hunanarfarnu yr ydym wedi'u defnyddio yma. Felly mae ei hun wedi bod drwy broses. Bydd Estyn yn dod i ysgol ac yn edrych arno mewn cipolwg amser, ac nid o reidrwydd yn canolbwyntio ar bopeth yn y model presennol hwn. Mae rhywfaint o sicrwydd o'n safbwynt bod y dyfarniadau rydym yn edrych arnynt yma yn cael eu gwneud gan yr Ymgynghorydd Her, yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi'i weld a gweithio arno yn yr ysgol, ac yna caiff hynny ei gymedroli o fewn y GCA drwy eu trafodaethau gyda'u prif Ymgynghorydd Her er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y tîm hwnnw hefyd.*

Pa bethau fydd yn cael eu rhoi ar waith i helpu ysgolion i yrru tuag at ragoriaeth?

*Y llynedd dechreuwyd protocol rhanbarthol ar gyfer edrych ar gynllunio datblygu ysgolion. Gwahoddwyd ysgolion i sesiynau gweithdy, a fynychwyd yn dda iawn gan ysgolion Sir Fynwy. Mynychwyd cymorthfeydd cynlluniau datblygu ysgolion, gyda'r ysgolion uwchradd yn cael cynnig cyngor a bod cymorth penodol yn cael ei nodi. O ganlyniad, cafwyd cymorth ychwanegol gan Ymgynghorydd Her. Yn nhymor yr Hydref, cyfarfuom yn ffurfiol ag ysgolion uwchradd, ac adolygasom y cynlluniau eto, os oedd angen gwneud rhagor o waith. Buom yn craffu ar y cynlluniau 'ysgolion sy'n peri pryder'. Mae'r gydberthynas rhwng prosesau hunanarfarnu a'u cynlluniau wedi'i thrafod a'i haddasu o ganlyniad i'w gwaith gydag Ymgynghorwyr Her.*

Mae'n ymddangos nad yw ysgolion uwchradd yn gwneud cystal â'r cynradd. A ellid dangos hyn yn fanylach yn y graffiau? Fel y mae, a yw'r ffigurau cynradd yn codi'r lefel gyffredinol, gan guddio'r darlun gwirioneddol ar lefel uwchradd?

*Oes, dim ond 4 ysgol uwchradd sydd yn Sir Fynwy, a bydd gan y darlun rhanbarthol lawer mwy. Mae'r ysgolion i gyd ar lefel digonol neu'n well erbyn hyn, mae'r cynlluniau ar gyfer yr holl ysgolion yn addas i'r diben ac yn bodloni gofynion statudol. Gallwn dorri'r ffigurau ymhellach ar gyfer y dyfodol.*

#### **Casgliad y Cadeirydd:**

Mae'n dda nad oes ysgolion mewn coch. Mae'n destun pryder mai dim ond un ysgol uwchradd sydd mewn gwyrdd. Mae ysgolion uwchradd yn sefydliadau mawr; mae'n ymddangos yn anos eu symud oherwydd nifer y staff. Mae'n ymddangos yn haws symud ysgolion cynradd gan fod ganddynt lai o staff. Ond mae ysgolion uwchradd mor bwysig o ystyried yr arholiadau. Hoffem i gyd wella'r ysgolion uwchradd sydd wedi llithro.

#### **5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 28<sup>ain</sup> Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

#### **6. Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Bydd Richard Austin yn cael ei wahodd i drafod gwaharddiadau. Mae'r Cadeirydd yn nodi ei bod yn bwysig yn y dyfodol i gael mwy o fewnbwn gan ysgolion yn y pwyllgor hwn. Mae pryder am golli disgyblion i ysgolion y tu allan i Sir Fynwy – Cas-gwent i Wyedean a'r Fenni i Grug Hywel, er enghraifft. Byddem am gadw cynifer o ddisgyblion cynradd â phosibl ar lefel uwchradd. Fodd bynnag, mae gweithio mewn clwstwr yn helpu gyda hyn. Er enghraifft, bydd mwy o blant Goetre mewn ysgolion uwchradd o fis Medi ymlaen oherwydd bod y Clwstwr yn gweithio.

Ar gyfer y diweddariad ADY ym mis Ebrill, mae'r Cynghorydd Brown wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ddisgyblion Tŷ Mouton ynglŷn â'u trefniadau dysgu amgen. Ar gyfer 'Cynnydd o ran diwygio'r Cwricwlwm', byddai'n ddefnyddiol gofyn i ysgolion peilot ddod i'r pwyllgor. O ran y cyfrwng Cymraeg, mae'r Cadeirydd yn nodi bod yr ysgol newydd yn rhywbeth y mae'r cyhoedd wedi gofyn amdano, ond efallai y bydd yn rhaid gwthio hynny'n ôl fel eitem agenda o ystyried digwyddiadau cyfredol.

#### **7. Rhaglen Waith y Cyngor a'r Cabinet.**

Ni thrafodwyd dim.

#### **8. Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 28 Ebrill 2020 am 10.00am.**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 28<sup>ain</sup> Ebrill 2020, yn amodol ar unrhyw newidiadau oherwydd y coronafeirws.

Er bod diwygiad cyfansoddiadol i bresenoldeb aelodau o bell mewn cyfarfodydd, mae rhai cyfyngiadau technolegol i'w goresgyn o hyd. Mae rhywfaint o arian yn y gyllideb ar gael ar gyfer gwelliannau. Edrychir ar hyn, yn enwedig yng ngoleuni'r Coronafeirws a'i oblygiadau posibl o ran presenoldeb.

The meeting ended at **11.55 am**